Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

#CefnogwyrAston

wbs.wales/CefnogwyrAston

Stori Aston

Ym mis Rhagfyr 2024, ychydig cyn ei ben-blwydd yn 16 oed, cafodd Aston Bevington o Borthcawl, Pen-y-bont ar Ogwr, ddiagnosis o Lewcemia Lymffoblastig Acíwt, math prin o ganser sy'n effeithio ar y gwaed a'r mêr esgyrn.

Yn fabolgampwr ifanc addawol sy'n angerddol am bêl-droed a rygbi, cafodd Aston ddiagnosis o dwymyn y chwarennau i ddechrau, ond parhaodd ei gyflwr i ddirywio. Dechreuodd deimlo'n flinedig, yn gyfoglyd, a dechreuodd rhannau eraill o'i gorff chwyddo.

Datgelodd profion pellach fod gan Aston fath prin o Lewcemia. Oherwydd difrifoldeb y salwch, mae'n debygol y bydd angen trawsblaniad bôn-gelloedd (sydd yn cael ei alw hefyd, yn drawsblaniad mêr esgyrn) arno er mwyn iddo wella'n llwyr.

Er mwyn helpu ei adferiad yn ystod ei driniaeth cemotherapi, mae Aston wedi derbyn trallwysiadau gwaed a phlatennau.

Roedd Aston i fod i orffen ei arholiadau TGAU eleni, ac roedd yn obeithiol o wireddu ei freuddwyd o ddod yn sbortsmon proffesiynol. Rydyn ni eisiau gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod Aston yn gwireddu'r freuddwyd hon. Mae angen eich help arnom!

Mae teulu Aston yn galw ar bobl i ymuno â chofrestr bôn-gelloedd Gwasanaeth Gwaed Cymru, yn y gobaith y byddan nhw'n dod o hyd i rywun sy'n cydweddu ag Aston, ac i helpu cymaint o bobl eraill â phosib sy'n brwydro gyda chanser y gwaed.

Cliciwch yma i ddarllen y stori lawn.

Cynnwys

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys popeth sydd ei angen arnoch i gefnogi #AstonsArmy, gan gynnwys...

Gwefan ac E-bost

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Asedau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Awgrymiadau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Negeseuon

Asedau Ffisegol

Y Nod

Rhannu stori Aston a’n helpu ni i frwydro yn erbyn canser y gwaed.

Cyfeiriwch eich cymuned i wbs.wales/CefnogwyrAston

Ffeithiau Allweddol

- Ni fydd 3 o bob 10 claf yn dod o hyd i roddwr yn eu teulu.
- Mae hyn yn cynyddu i 7 o bob 10 ar gyfer cleifion o gefndiroedd du, cymysg, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.
- Math o ganser y gwaed yw lewcemia lymffoblastig acíwt. Mae'n dechrau o gelloedd gwaed gwyn a elwir yn lymffocytau ym mêr yr esgyrn. Y mêr esgyrn yw rhan fewnol feddal yr esgyrn, lle mae celloedd gwaed newydd yn cael eu gwneud.
- Mae celloedd gwaed gwyn yn rhan o'ch system imiwnedd, ac maen nhw'n amddiffyn eich corff rhag haint. Mae'r celloedd gwaed gwyn yn cylchredeg trwy'ch llif gwaed a'ch meinweoedd i ymateb i anaf neu salwch, trwy ymosod ar unrhyw organebau anhysbys sy'n mynd i mewn i'ch corff.
- Mae tua 250,000 o bobl yn byw gyda chanser y gwaed yn y DU. Bydd un o bob 16 dyn ac un o bob 22 o fenywod yn dioddef ohono ar ryw adeg yn eu bywydau. Dyma'r math mwyaf cyffredin o ganser plentyndod. Bob blwyddyn, mae mwy na 500 o blant o dan 15 oed yn cael diagnosis o ganser y gwaed.
- Bob blwyddyn yn y DU, bydd angen trawsblaniad bôn-gelloedd ar 2000 o gleifion.

Sut gall eich cynulleidfa helpu



Ymuno â Chofrestr Mêr Esgyrn Gwasanaeth Gwaed Cymru



Dod yn rhoddwr gwaed neu blatennau

Lledaenu’r neges drwy ddefnyddio'r deunyddiau yn y pecyn hwn

Gwefan ac e-bost

Yma, fe welwch destun i roi gwybod i'ch cymuned eich bod yn cefnogi Cefnogwyr Aston trwy eich gwefan ac e-bost. Mae croeso i chi addasu'r copi fel y bo'n briodol.

Mae [ENW'R SEFYDLIAD] yn falch o ymuno ag #AstonsArmy - yr ymgyrch i ddod o hyd i roddwr y mae ei fôn-gelloedd yn cydweddu â rhai Aston Bevington, bachgen 16 oed o Borthcawl, Pen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi cael diagnosis o Lewcemia.

Ac yntau'n fabolgampwr ifanc addawol, sy'n chwarae pêl-droed i Glwb Pêl-droed Tref Pontardawe a rygbi i Glwb Rygbi Porthcawl, aeth Aston yn sâl ychydig cyn ei ben-blwydd yn 16 oed ym mis Rhagfyr 2024. Cafodd ei ddiagnosio gyda thwymyn y chwarennau i ddechrau, ond gwaethygodd ei symptomau ac yn fuan wedyn, dywedwyd wrtho fod ganddo Lewcemia Lymffoblastig Acíwt.

Oherwydd difrifoldeb y salwch, mae'n debygol y bydd angen trawsblaniad bôn-gelloedd arno (sydd yn cael ei alw hefyd yn drawsblaniad mêr esgyrn) er mwyn gwella'n llwyr.

Mae yna 40 miliwn o wirfoddolwyr cofrestredig o gwmpas y byd, ond mae llawer o gleifion yn dal i fethu dod o hyd i rywun sy'n cydweddu.

Er mwyn helpu i wella'r siawns o gleifion yn dod o hyd i roddwr addas sy'n cydweddu, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn ymgyrchu i recriwtio 4,000 o wirfoddolwyr newydd i ymuno â'u cofrestr bôn-gelloedd eleni.

Rydym yn galw ar y gymuned [ENW'R SEFYDLIAD] i ymuno ag #AstonsArmy, i ymuno â chofrestr bôn-gelloedd Gwasanaeth Gwaed Cymru os ydych yn gymwys, ac i helpu i ledaenu'r neges hollbwysig hon.

Gallwch ymuno â Chofrestr Gwasanaeth Gwaed Cymru mewn dwy ffordd, trwy ofyn am becyn swab ar-lein neu wrth roi gwaed.

I gefnogi neu gofrestru, ewch i https://wbs.wales/CefnogwyrAston

#AstonsArmy

Y cyfryngau cymdeithasol

Rydyn ni wedi creu rhywfaint o negeseuon cyfryngau cymdeithasol templed, i'w gwneud hi'n hawdd i chi gefnogi #AstonsArmy ar eich sianeli, ac i annog eich dilynwyr i gymryd rhan.

Ymunwch ag #AstonsArmy!

Mae [ENW'R SEFYDLIAD] yn falch o fod wedi ymuno â'r frwydr yn erbyn canser y gwaed i helpu claf lewcemia 16 oed, Aston Bevington, ac eraill sydd wedi cael diagnosis o ganser y gwaed.

Os ydych yn gymwys, ymunwch â chofrestr bôn-gelloedd Gwasanaeth Gwaed Cymru!

Rhagor o wybodaeth:
https://wbs.wales/CefnogwyrAston

Rydyn ni'n cefnogi #AstonsArmy i helpu

Aston Bevington, 16 oed, sydd angen trawsblaniad bôn-gelloedd.

Gallwch ddarganfod sut y gallwch chi helpu yma:
https://wbs.wales/CefnogwyrAston

Peidiwch ag anghofio defnyddio'r hashnod #AstonsArmy a'r ddolen https://wbs.wales/CefnogwyrAston wrth rannu unrhyw negeseuon sy'n ymwneud â'r ymgyrch.

@welshblood / @gwaedcymru (Twitter)
@welshbloodservice / @gwaedcymru (Instagram)

Asedau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Rydyn ni wedi creu graffeg ar gyfer pob un o'r prif lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i chi eu defnyddio i gefnogi'r ymgyrch.

TWITTER

FACEBOOK

INSTAGRAM

Asedau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Ystyriwch ddefnyddio'r baneri hyn fel pennyn eich proffil.



Twitter

Facebook

Awgrymiadau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

- Peidiwch ag anghofio defnyddio'r hashnod #AstonsArmy a’r ddolen https://wbs.wales/CefnogwyrAston wrth rannu unrhyw negeseuon sy'n ymwneud â'r ymgyrch
- Mae croeso i chi ail-bostio a rhannu cynnwys Gwasanaeth Gwaed Cymru
- Os ydych chi'n cyhoeddi eich cynnwys eich hun, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ein tagio fel y gallwn ni gefnogi.
  @welshblood / @gwaedcymru (Twitter), @welshbloodservice / @gwaedcymru (Instagram)
- Cyfeiriwch eich cymuned at dudalen we ein hymgyrch https://wbs.wales/CefnogwyrAston
- Byddwch yn actif ar eich cyfrif – os ydych chi’n cael ymatebion gan bobl sy’n gofyn cwestiynau, defnyddiwch yr wybodaeth yn y pecyn hwn i’w hateb, neu cyfeiriwch nhw at Wasanaeth Gwaed Cymru.

Negeseuon

Os oes gennych restr o gefnogwyr, staff, gwirfoddolwyr neu gymuned sydd wedi cofrestru i dderbyn negeseuon testun, neu mewn sgwrs grŵp, gallech ddefnyddio'r negeseuon hyn a awgrymir i roi gwybod iddynt am #AstonsArmy.





Asedau ffisegol

Rydym wedi creu rhywfaint o bosteri a thaflenni i chi eu hargraffu a'u gosod o amgylch eich adeiladau.

A4

A5

Diolch

#AstonsArmy

wbs.wales/CefnogwyrAston

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y pecyn cymorth hwn, cysylltwch â wbs.communications@wales.nhs.uk